

# Empanadas

## Cyfarwyddiadau

Cymysgwch y fflŵr a'r halen mewn bowlen Ychwanegwch y menyn. Cymysgwch yn dda. Ychwanegwch y melynwy a'r llaeth a chymysgwch tan ei fod yn does yna'i roi yn yr oergell am 30 munud. Rholiwch y toes allan a thorrwch gylchoedd allan.





Cymysgwch y cig, paprica, cumin halen a phupur mewn bowlen.
Toddwch y menyn mewn padell ffrio ac ychwanegwch y winwns. Ffraewch am 8 munud.
Adiwch y gymysgedd cig a choginiwch tan bo'r cig wedi ei goginio'n dda. Ychwanegwch yr oregano. Gadewch i'r gymysgedd oeri.
Rhowch llwyaid o'r gymysgedd yng nghanol y cylchoedd toes. Rhowch sleisen o wy ac olewydd ar bob un. Gan ddefnyddio brws bach, rhowch y gymysgedd wy a llaeth o amgych ochrau'r toes. Plygwch y toes dros y gymysgedd a chaewch y toes gyda'ch bysedd.
Coginiwch yn y ffwrn am 20 munud ar dymheredd o 190*









## Cynhwysion

Toes – digon i wneud tua 30 empanadas bach:
3 cwpanaid o fflŵr plaen
1 melyn ŵy
½ cwpan o fenyn
¾ cwpan to 1 cwpan o laeth poeth
½ llwy dê o halen

1lb o gig eidon
2 winwnsyn wedi seisio
½ cwpan o fenyn
2 Llwy fwrdd Paprica
2 Llwy fwrdd o bowdwr chillí
1 Llwy fwrdd oregano
½ Llwy fwrdd cumin
3 ŵy wedi berwi ac wedi sleisio
¼ cwpan olewydd gwyrdd
Halen a phupur i'w flasu

**Grwpiau Trafod**

**1. Beth yw eich barn ar osodiad y testun?**
**2. Ydy'r cyfarwyddiadau'n ddigon eglur?**
**3. Ydy'r iaith yn ddigon syml?**
**4. A oes rhestr glir o beth sydd ei angen?**
**5. Ydy'r lluniau yn ychwanegu rhywbeth at y testun?**
**6. Pa offer sydd eu hangen?**

Ewch ati i ail gyflwyno'r wybodaeth gan ystyried y nodweddion sydd yn bwysig.

- Teitl sy'n cyfleu'r gweithgaredd
- Lluniau i gefnogi'r testun

- Y gweithgaredd gam wrth gam
- Rhifau i nodi'r camau

- Rhestr beth sydd ei angen
- Ybrawddeg i gloi